

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Restore Dental, Whitchurch  
Road, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro

Dyddiad arolygu: 30 Gorffennaf  
2019

Dyddiad cyhoeddi: 31 Hydref  
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Restore Dental yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion. ....	6
4.	Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisiau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith i gefnogi'r cleifion a'r staff. ....	6
5.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	18
6.	Beth nesaf? .....	21
7.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	23
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	25
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	26

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

**Rhoi sicrwydd:**

**Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal**

**Hybu gwelliant:**

**Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da**

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

**Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer**

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Restore Dental Group yn 354 Whitchurch Road, Caerdydd, CF14 3NH, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 30 Gorffennaf 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, roedd y deintyddfeydd yn cael eu cadw i safon dda, yn ogystal â'r ardaloedd aros a'r ardal addysgu.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd tystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig yn rheoli ac yn arwain yn gadarn a bod cydberthnasau da rhwng y staff.
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan y cleifion a oedd yn nodi eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y deintyddfeydd yn cael eu cadw i safon uchel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis sicrhau bod y deintyddfeydd yn cael eu cadw yn daclus bob amser.
- Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw i safon uchel.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## 5. Yr hyn a nodwyd gennym

### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Restore Dental Group yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardaloedd yr Eglwys Newydd a Threganna. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys chwe deintydd, un hylenydd, un therapydd, un ar ddeg nyrs ddeintyddol gan gynnwys pum hyfforddai, dau dderbynnydd, dau reolwr clinigol ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod Restore Dental yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd y cleifion wrthym bod y staff yn y practis deintyddol yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth i helpu'r cleifion i wneud dewisiadau effeithiol ynglŷn ag iechyd y geg da ac opsiynau triniaeth yn ôl yr angen. Roedd yr awyrgylch yn groesawgar, a gwelsom y staff yn gwneud ymdrech i wneud i'r cleifion ymlacio a themlo'n gartrefol o'r eiliad yr oeddent yn cyrraedd.

Cyn ein harolygiad, dosbarthodd y practis holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 23 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd ychydig dros hanner o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Gwnaeth un claf y sylwadau canlynol:

"Ers i mi ddod at y deintydd rwyf wedi cael triniaeth ardderchog".

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Gwnaeth un claf y sylwadau canlynol:

"Dylech gadw'r deintyddion am fwy o amser".

## Cadw'n iach

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi dweud wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.



Gwelsom fod ystod eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros am driniaethau preifat a thriniaethau'r GIG, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am iechyd y geg i oedolion a phlant. Roedd hyn yn enghraifft dda o'r practis yn helpu'r cleifion i gynnal eu hiechyd a hylendid y geg eu hunain.

## **Gofal ag urddas**

Yn ddiethriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis.

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gwrtais. Dywedodd y staff wrthym y gallent ddefnyddio'r swyddfa neu ddeintyddfa wag petai angen cael sgwrs breifat wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â chlaf. Roedd gan bob un o'r deintyddfeydd ddrysau y gellid eu cau er mwyn sicrhau'r lefelau priodol o breifatrwydd ac urddas i gleifion sy'n cael triniaeth.

Nodwyd gennym fod y naw egwyddor a bennir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>1</sup> yn cael eu harddangos yn yr ardal aros lle y gallai'r cleifion eu gweld yn glir.

## **Gwybodaeth i gleifion**

Lle y bo'n gymwys, dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys. Dywedasant hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth sydd ar gael a dywedodd pob claf ond dau wrthym fod y gost bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Roedd y wybodaeth yn esbonio costau triniaeth y GIG a thriniaeth breifat yn cael ei harddangos i'r cleifion ym mhob rhan o'r practis.

---

<sup>1</sup> <https://standards.gdc-uk.org/> Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi nodi naw egwyddor sy'n gymwys i bob gweithiwr deintyddol proffesiynol cofrestredig. Maent yn amlinellu'r safonau, y perfformiad a'r foeseq y gall cleifion eu disgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Roedd y Daflen Wybodaeth i Gleifion ar gael i'r cleifion. Roedd y daflen yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y practis a'r holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Y tu allan i'r adeilad, gwelsom fod oriau agor y practis yn cael eu harddangos. Roedd y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng hefyd yn cael ei arddangos y tu mewn i'r practis.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedodd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith 'bob amser'.

Mae'r cleifion yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith o fewn y practis. Roedd rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg, ac roedd gwybodaeth ysgrifenedig hefyd ar gael yn y ddwy iaith. Roedd y practis hefyd yn ymwybodol o'r llinell iaith petai angen gwasanaethau cyfieithu ar siaradwr Cymraeg neu unigolyn nad yw'n siarad Saesneg.

### **Gofal amserol**

Dywedodd ychydig yn llai na chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' i gael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Roedd manylion yn nodi sut y gallai'r cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau ar gael i gleifion yn y dderbynfa, yn y daflen i gleifion ac ar wefan y practis.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, petai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf oedd yn aros am unrhyw oedi ac yn caniatáu iddynt aildrefnu petai angen iddynt wneud hynny.

### **Gofal unigol**

#### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Lle y bo'n berthnasol, cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod yr opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi ar bob un o'r cofnodion perthnasol a welsom. Dangosodd hyn fod y cleifion yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau triniaeth.

### **Hawliau pobl**

Roedd y practis yn addas i bobl oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn gan fod ganddo ddeintyddfa wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod. Fodd bynnag, roedd angen mynd dros ris bach er mwyn mynd i mewn i'r ddeintyddfa ac rydym yn argymhell gosod ramp yno, yn lle gorfod codi'r gadair. Prynwyd hyn yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom fod sawl polisi ar waith i gefnogi'r staff a'r cleifion, gan gynnwys polisi derbyn cleifion a pholisi cyfle cyfartal. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn gallu cyflawni ei ymrwymadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### **Gwrando ar adborth a dysgu ohono**

Gwelsom fod polisi cwynion ar waith a oedd yn cydymffurfio â rhaglen Gweithio i Wella<sup>2</sup> y GIG a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Roedd unigolyn cyfrifol penodedig ar gael i ymdrin â chwynion. Gall y cleifion roi adborth drwy'r holiaduron sydd ar gael, a gwneud awgrymiadau anffurfiol. Roedd adborth o'r rheini yn cael ei roi i'r staff ac roedd unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn yn cael eu hadrodd yn ôl i'r cleifion lle y bo'n briodol.

---

<sup>2</sup>[http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166\\_Putting%20Things%20Right\\_a5%20leaflet\\_Welsh\\_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%20011.pdf](http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166_Putting%20Things%20Right_a5%20leaflet_Welsh_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%20011.pdf)

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol a bod trefniadau ar waith i drin cleifion yn ddiogel. Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal i safon dda ar y cyfan. Fodd bynnag mae rhaid i un o'r deintyddfeydd gael ei thacluso er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Mae angen gwella a diweddarau'r cofnodion meddygol er mwyn cynnwys rhagor o fanylion am y gofal a roddir i gleifion.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Ni leisiodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis deintyddol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn 'lân iawn'.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal i safon uchel. Gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Roedd y practis mewn dau adeilad ar bob ochr o'r ffordd; fodd bynnag, gwnaeth y practis ymdrech i sicrhau bod y cleifion yn mynd i'r un lleoliad fel arfer er mwyn lleihau'r angen i'r cleifion groesi'r ffordd. Roedd y tu allan i'r adeiladau i'w weld yn lân ac mewn cyflwr da. Y tu mewn, roedd yr adeiladau'n olau, yn daclus ac yn fawr.

Gwelsom fod nifer o bolisiâu cynhwysfawr ar waith mewn perthynas ag addasrwydd yr adeiladau. Roedd y rhain yn cynnwys polisi iechyd a diogelwch, polisi rheoli risgiau a pholisi wrth gefn mewn argyfwng. Roedd polisiâu ac asesiadau risg ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff ac yn cael eu nodi mewn cyfarfodydd tîm. Roedd asesiad risg amgylcheddol digonol ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeiladau, a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd asesiad risg diogelwch tân ar waith yn y practis, yn ogystal â pholisi tân. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân priodol. Fodd bynnag, nid oedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal yn unol ag argymhellion yr asesiad risg. Gwnaethom argymhell bod y rheini'n cael eu cynnal yn rheolaidd.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) 2002<sup>3</sup>, mae angen i gyflogwyr naill ai leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd, neu ei atal yn gyfan gwbl. Gwelsom fod gan y practis brotocol 'Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd' (COSHH) a pholisi ar gyfer trin a thrafod mercwri. Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer cludo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n glinigol yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnal ymarferion tân rheolaidd.

#### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol yn y ddeintyddfa ar y ddau safle, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05<sup>4</sup>. Roedd yr ystafelloedd yn ymddangos yn lân ac yn daclus.

Gwelsom dystiolaeth fod y protocol ar gyfer archwilio cyfarpar sterileiddio ar gael ac yn gyfredol, a bod polisi rheoli heintiau a pholisi diogelwch offer miniog ar waith i'r staff, gan olygu bod y staff a'r cleifion yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag

---

<sup>3</sup> [http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/ocs/200-299/273\\_20/](http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/ocs/200-299/273_20/)

<sup>4</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

anafiadau a heintiau a achosir gan nodwyddau. Roedd gan y practis amserlen lanhau i'r staff ei dilyn er mwyn sicrhau bod pob ardal yn lân ac yn daclus bob amser.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth wneud gwaith dihalogi.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar reoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bodloni gofyniad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i gael pum awr o hyfforddiant. Gwnaethom argymhell bod y staff yn cael hyfforddiant ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn bodloni'r gofynion o ran hyfforddiant.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05.

Gwelsom fod rhywfaint o annibendod yn y ddeintyddfa gefn ar y llawr cyntaf ar y safle gwreiddiol. Gwelsom hefyd fod leininau'r droriau'n hen ac yn chwalu yn y ddeintyddfa hon. Gall hyn olygu na ellir eu glanhau'n effeithiol, a gwnaethom argymhell y dylid cael rhai newydd cyn gynted â phosibl.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael o leiaf bum awr o hyfforddiant ar reoli heintiau.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y ddeintyddfa gefn ar y llawr cyntaf yn daclus, a chael leininau drôr newydd.

#### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys gweithdrefn dadebru ac argyfyngau meddygol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd.

Roedd y practis wedi penodi dau swyddog cymorth cyntaf, gan sicrhau y câi'r staff a'r cleifion gymorth cyntaf priodol pe byddai damwain neu anaf.

Roedd pecyn cymorth cyntaf y practis yn gyflawn ac yn gyfredol. Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod modd cael gafael ar feddyginiaethau'n briodol, yn ogystal â'u trin, eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu'n briodol, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cytuno ar y polisiau a'r

gweithdrefnau hynny. Nodwyd gennym fod gan y practis broses gynhwysfawr ar gyfer gwirio'r stoc o gyfarpar brys a ddefnyddiwyd.

Roedd y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu storio mewn cwpwrdd ac roeddent i gyd yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Dadebru.

### **Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg**

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol.

Ar adeg yr arolygiad, roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant diogelu priodol ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd swyddog diogelu arweiniol hefyd mewn swydd.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Yn unol â'r rheoliadau, roedd gan y practis bolisi cynnal a chadw a diogelwch cyfleusterau a oedd yn cynnwys profi offer, cynnal asesiadau risg priodol a rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

Roedd y cyfarpar radiolegol (pelydr-X) mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Gwelsom fod y rheolau lleol<sup>5</sup> wedi'u harddangos yn y deintyddfeydd.

---

<sup>5</sup> Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserâu, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>6</sup> a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)<sup>7</sup> 2017, roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Gwelsom dystiolaeth fod nifer o archwiliadau clinigol ar waith yn y practis er mwyn helpu i ddangos ei fod yn cadw at y safonau proffesiynol cyfredol. Bydd canlyniadau'r archwiliadau yn helpu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella ac yn cefnogi unrhyw newidiadau i arferion y tîm deintyddol.

Roedd Datganiad o Ddiben y practis yn nodi'r trefniadau priodol ar gyfer derbyn, asesu, diagnosis a thrin cleifion. Roedd gan y practis hefyd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i ategu'r swyddogaethau hyn.

Gwelsom dystiolaeth drwy gydol y dydd fod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol, megis canllawiau NICE<sup>8</sup>, yn cael eu hystyried yn y ffordd ddyledus ac yn cael eu dilyn lle y bo'n briodol.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Fel y nodwyd uchod, gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cwblhau amrywiaeth o archwiliadau clinigol ac wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i ganllawiau proffesiynol.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio adnodd datblygu practisau 'Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth'<sup>9</sup> Deoniaeth Cymru fel ei adnodd gwella ansawdd. Mae'r rhain yn adnoddau datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar y ffordd maent yn gweithio gyda'i gilydd.

---

<sup>6</sup> Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

<sup>7</sup> [http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi\\_20001059\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf)

1. <sup>8</sup> <https://www.nice.org.uk/.../oral-and-dental-health>

<sup>9</sup> <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>



## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu. Roedd copïau wrth gefn o gofnodion electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd er mwyn diogelu gwybodaeth cleifion a helpu i sicrhau nad oedd yn cael ei cholli.

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi diogelu data. Golygai hyn fod y staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau addas mewn cysylltiad â'u gwaith o ddydd i ddydd.

### Cadw cofnodion

Cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion. Gwelsom nad oedd y cofnodion yn cynnwys y manylion sydd eu hangen. Gwelsom fod diffygion sylweddol mewn nifer o gofnodion, yn benodol yn y meysydd canlynol:

- Siartiau periodontol chwe phwynt anghyson <sup>10</sup>
- Roedd ffurflenni hanes meddygol y cleifion yn cael eu sganio i'r system cyn iddynt gael eu gwrthlofnodi gan y deintydd
- Roedd y cyngor ar roi'r gorau i smygu'n anghyson.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

---

<sup>10</sup> Mae siartiau periodontol yn rhoi cyfle i weithwyr deintyddol proffesiynol gofnodi cyflyrau cyffredinol yn ymwneud â'r deintgig neu'r geg mewn perthynas â chlefyd neu iechyd y geg neu glefyd neu iechyd periodontol

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom dystiolaeth o ddulliau rheoli ac arwain da yn y practis.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd y staff, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Mae Restore Dental Surgery yn berchen i'r Rheolwr Cofrestredig<sup>11</sup>, sydd hefyd yn gweithredu fel yr Unigolyn Cyfrifol<sup>12</sup> a'r prif ddeintydd. Caiff y Rheolwr Cofrestredig ei gefnogi gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol.

Mae rheolwr y practis yn rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod trefniadau arwain da ar waith yn y practis a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

---

<sup>11</sup> Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf fel rheolwr practis deintyddol preifat.

<sup>12</sup> Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli;

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Dywedodd pob un o'r staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ac roedd y gydberthynas dda rhyngddynt â'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'r cleifion yn dystiolaeth o hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon am ofal y cleifion, naill ai'n uniongyrchol gyda'r deintydd, neu gyda chorff amgen priodol, lle bo angen.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y Rheolwr Cofrestredig neu newidiadau iddo, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC<sup>13</sup>.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

---

<sup>13</sup> O dan reoliadau 25-29 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, rhaid i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am ddigwyddiadau pwysig, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig.

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu a gweithdrefnau adnoddau dynol ar waith, gan gynnwys polisi recriwtio. Roedd y staff hefyd yn cael arfarniadau rheolaidd ac roedd gan bob aelod o'r staff gynlluniau datblygu personol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd tîm yn rheolaidd. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn ac roedd y staff na allent fod yn bresennol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan reolwr y practis.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff.

## 6. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 7. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwnaethom nodi nad oedd ramp ar gyfer pobl anabl i mewn i'r ddeintyddfa a oedd wedi ei dynodi yn ddeintyddfa i bobl anabl ar y llawr gwaelod.	Gallai hyn beri risg o niwed i'r claf, y staff a'r hebryngwyr petai angen iddynt helpu'r unigolyn anabl i fynd i mewn i'r ystafell.	Gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r risg i'r rheolwr cofrestredig gan argymhell, pe bwriedir i'r ystafell hon barhau i gael ei defnyddio fel deintyddfa i bobl anabl, y byddai'n rhaid gosod ramp.	Daethpwyd o hyd i ramp a gosodwyd hwnnw yn ystod yr arolygiad.



## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Gwasanaeth: Restore Dental Group

### Dyddiad arolygu: 30 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

Tudalen 25 o 28

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Restore Dental Group

### Dyddiad arolygu: 30 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Dylai'r practis gynnal ymarferion tân rheolaidd.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch; <b>Rheoliadau</b> <b>Deintyddiaeth</b> <b>Breifaf Adran 22</b>	Mae ymarfer tân wedi cael ei gynnal a'i gofnodi. Bwriedir ei gynnal bob chwe mis.	Charlotte Chapman	Yn syth
Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael o leiaf bum awr o hyfforddiant ar reoli heintiau.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau (IPC) a Dihalogi, <b>WHTM 01-05</b>	Bydd angen i bob aelod o'r staff presennol gwblhau 1.5 awr o hyfforddiant ychwanegol ar reoli heintiau erbyn 25 Hydref 2019. Bydd pob aelod newydd o'r staff yn cael 5 awr neu fwy o hyfforddiant	Charlotte Chapman	25 Hydref 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y ddeintyddfa gefn ar y llawr cyntaf yn daclus, a chael leininau drôr newydd.</p>		<p>gorfodol ar reoli heintiau, i'w gwblhau fel rhan o raglen sefydlu'r cwmni.</p> <p>Mae'r ddeintyddfa gefn wedi cael ei thacluso – nid yw'r holl waith papur yn cael ei storio wrth ymyl y cyfrifiadur personol mwyach er mwyn sicrhau y gellir glanhau'r ardal hon yn hawdd. Mae leininau drôr newydd wedi cael eu gosod yn lle'r hen rhai.</p>	Charlotte Chapman	Yn syth
<p>Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, Adran 20</p>	<p>Bydd y gwaith papur a gwblheir gan y cleifion yn cael ei wirio gan staff y dderbynfa cyn iddo gael ei sganio i'w ffeiliau electronig, Yn achos hanes meddygol, mae'n rhaid i hwnnw gael ei wrthlofnodi gan y deintydd cyn iddo gael ei sganio i'r ffeil electronig. Mae'r clinigwyr wedi cael hyfforddiant a chynngor gan Raid Ali ar wirio siartiau periodontol chwe phwynt a chynngor cyson ar roi'r gorau i smygu. Bydd pob rheolwr yn mynd ar gwrs rhoi'r gorau i smygu ar 14 Hydref ac mae'r tri phractis</p>	Raid Ali, Dan oruchwyliaeth Charlotte Chapman	Yn syth

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		wedi cofrestru i gymryd rhan mewn archwiliad rhoi'r gorau i smygu.		

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Charlotte Chapman**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 16/09/2019**